


Croeso

Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd ac er bod y tywydd efallai'n anwadal, mae ein hymrwymiad i gyflawni sero net yn ddi-wyro fel y gwelwch chi yn y man yn rhifyn Ebrill o'n newyddlen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Mae gennym ni lawer o newyddion i chi yn y rhifyn hwn felly gwnewch banded i'ch hunan a setlo i lawr i'w ddarllen ac, fel ag erioed, os oes unrhyw beth yr hoffech iddo gael sylw, neu os oes gennych chi stori hoffech chi ei hadrodd, cysylltwch â ni.



Yn y Rhifyn Hwn

- Cyfle i fusnesau a masnachwyr Cymru
- Arolygon Cartref Cyfan yn mynd rhagddynt
- Pasbortau Adnewyddu Adeilad
- Cyfleoedd DPP pellach

Offer Digidol

Arolygon Cartref Cyfan yn mynd rhagddynt

Welsoch chi'r darn amdanom ni ar y newyddion?

Mae'r prosiect wedi symud o'r bwrdd dylunio i gyflenwi canlyniadau, gyda'r arolygon cyntaf yn cael eu cynnal gan y timau tai cymdeithasol wrth iddyn nhw ddechrau asesu'r cartrefi peilot a gaiff eu hôl-osod fel rhan o'r prosiect.

Yn dilyn cyfnod datblygiad carlam yr ap Arolwg Cartref Cyfan gan Sero, mae fersiwn cyntaf yr offeryn digidol arloesol wedi cael ei lansio erbyn hyn ac yn cael ei roi ar waith.

Mae hyn yn dilyn hyfforddi mwy na 100 o weithwyr proffesiynol y diwydiant mewn sut i ddefnyddio'r offeryn digidol Arolwg Cartref Cyfan i'w galluogi i ddechrau asesu cartrefi.

Mae Llwybrau i Sero yn cydfynd â gwaith y Sefydliad Cyllid Gwyrdd ar greu safon ar gyfer Pasbortau Adnewyddu Adeilad (dysgwch fwy isod).

Ar ôl i'r rhaglen Llwybrau Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gael ei chwblhau, trefnwn fod yr offer digidol ar gael i ddarparwyr tai cymdeithasol Cymru, academia, llywodraeth, ac wedi hynny i berchnogion cartrefi preifat.

Bydd hyn yn galluogi cyflenwi treftadaeth hirdymor o ran offer, sgiliau, fframweithiau a sylfaen dystiolaeth a fydd yn caniatáu i eraill ddilyn a galluogi ehangu a chyflymu datgarboneiddio cartrefi Cymru ar frys.

Darllenwch ein herthygl lawn yn [Business News Wales](#) neu [LABM](#) nawr.



Yr Economi Sylfaenol

Ymgysylltu â chymunedau ynghylch newid yn yr hinsawdd

Sefydliad Cyllid Gwyrdd: Pasbortau Adnewyddu Adeilad

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Clymblaid Er Ynni-efeithlonrwydd Adeiladau y Sefydliad Cyllid Gwyrdd [Building Renovation Passports: Creating the pathway to zero carbon homes](#), adroddiad sy'n pennu'r camau i sefydlu offeryn digidol i helpu perchnogion eiddo i gael gafael ar wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau am ôl-osod eu cartrefi.


Mae Pasbortau Adnewyddu Adeilad, sydd ar waith yn barod mewn sawl gwlad yn Ewrop, yn cynnwys llyfr log digidol gyda gwybodaeth am yr eiddo, ei berfformiad gweithredol ac adnewyddiadau hanesyddol; a chynllun adnewyddu hirdymor sy'n nodi mesurau ôl-osod at y dyfodol, ynghyd â chysylltiadau â chontractwyr ac opsiynau o ran cyllid.

Mae adroddiad y Glymblaid, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â mwy na 50 o aelodau'r sectorau ynni, eiddo a chyllid ôl-osod a meysydd data ac academia, yn ogystal ag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, yn cyflwyno'r prif argymhellion am sut

i ddatblygu fframwaith safonedig i gefnogi cyflwyniad Pasbortau Adnewyddu Adeilad yn y DU.

Mae'n ystyried y mewnbynnau a'r allbynnau data mae eu hangen, rolau a chyfrifoldebau wrth ddatblygu a defnyddio'r Pasbortau, a manteision traws-sectorol a allai ddod yn sgîl eu mabwysiadu'n eang.

Mae'r Glymblaid yn gwahodd adborth gan weithwyr proffesiynol meysydd ynni, data, ôl-osod a chyllid, er mwyn datblygu ymhellach a chyhoeddi fframwaith â chefnogaeth diwydiant i helpu i gyflwyno Pasbortau Adnewyddu Adeilad yn y DU.



'Gyda'n gilydd mynnwn newid' – Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent yn cyhoeddi argymhellion

Daeth Cynulliad Hinsawdd cyntaf erioed Cymru i ben ar ddiwedd Mawrth gan gyhoeddi ei argymhellion am ymateb dan arweiniad dinasyddion i newid yn yr hinsawdd yn Ne Cymru.

Mae Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent wedi treulio'r bedair wythnos diwethaf yn dylunio ac yn trafod cynigion i ymdrin â newid hinsawdd ym Mlaenau Gwent.

Cafodd y cynigion terfynol eu cyflwyno a phleidleisiwyd annyn nhw yn ystod sesiwn olaf y Cynulliad ddydd Sul (**28 Mawrth**).



**Climate Assembly
Cynulliad Hinsawdd**



Cafodd pum argymhelliad allweddol eu pasio gyda chefnogaeth mwy nag **80%** o aelodau'r cynulliad ar draws meysydd fel trafndiaeth, tai a mannau gwyrdd gan gynnwys:

1. Sefydlu system drafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd fforddiadwy, integredig ym Mlaenau Gwent gyda system un tocyn am gynlluniau bws, trên a beicio.
2. Sefydlu seilwaith diogel a hawdd ei gynnal ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
3. Hyfforddiant newydd, cymwysterau a diweddarau sgiliau i grefftwyr lleol er mwyn cynyddu sgiliau adeiladu gwyrdd ledled y bwrdeistref.
4. Gweithredu rhaglen o gadw coetiroedd ac ailgoedwigo gan gynyddu cyfleoedd am swyddi, bio-amrywiaeth a chysylltu coetiroedd.
5. Sicrhau bod tai newydd yn cael eu datblygu gyda'r technegau cynaliadwy diweddaraf.

Mae rhestr lawn o'r argymhellion ar gael i'w gweld [yma](#).

Cafodd ei drefnu gan United Welsh, Linc Cymru, Melin Homes a Tai Calon mewn partneriaeth â'r elusen datblygiad cynaliadwy Cynnal Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac ERS Cymru. Gallwch chi wyllo sesiynau'r cynulliad [yma](#).

Make the Future Yours!

Cyrraedd y garreg filltir gyntaf am weithgarwch 'Gyrfaoedd mewn Datgarboneiddio'

Mae'n bleser mawr gan gylchgrawn Make the Future Yours! gadarnhau bod y rhifyn cyntaf o dri, sy'n cael eu cynhyrchu mewn partneriaeth â'r Prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn.

Mae ar gael ar-lein, yn y Gymraeg a Saesneg, a gallwch chi ei ddarllen yma:

[Rhifyn Cymru/Cymraeg](#)

[Rhifyn Cymru/Saesneg](#)



O dan biler 'Economi Sylfaenol' y prosiect hwn, mae Make The Future Yours! yn arwain ar thema 'Gyrfaoedd mewn Datgarboneiddio'.

Mae'r cylchgrawn yn fwriadol yn cynnwys yr ystod ehangaf bosibl o wybodaeth a chyngror, er mwyn apelio at gynifer o ddarllenwyr â phosibl, ond bydd rhifynnau Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Cymru yn cynnwys rhoi sylw sylweddol i adeiladu gyrfaoedd yn gyffredinol a datgarboneiddio yn benodol.

Yn ystod 2021, bydd copïau mewn print yn cael eu postio i bob ysgol uwchradd a choleg chweched dosbarth yng Nghymru. Mae'r cylchgrawn

yn bwriadu parhau i gyhoeddi yng Nghymru hefyd ar ôl i'r Prosiect ddod i ben felly mae'n awyddus i sefydlu cysylltiadau a pherthnasoedd gwaith buddiol ledled y wlad.

Bydd rhifynnau nesaf y Prosiect yn cael eu cyhoeddi ym Mehefin cynnar a Hydref hwyr 2021 ac mae croeso mawr i unrhyw bartneriaid y prosiect sydd â syniadau am gynnwys neu astudiaethau achos gysylltu â'r Golygydd, Claire Sutton, yn claire@makethefutureyours.com



Digwyddiadau sydd yn yr Arfaeth

Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru

Mae Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru yn ganolfan hyfforddi unigryw sy'n cael ei hariannu gan CITB i Gymru gyfan, gyda'i chanolbwynt yn ffurfio rhan o Ardal Arloesi newydd SA1 Glannau Abertawe [Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#).

Mae gan y Ganolfan gyrsiau newydd ar gael nawr, wedi eu hariannu'n llawn. Mae'r lleoedd ar bob cwrs yn gyfyngedig felly mae angen i chi frysio.

Mae'r pynciau'n cynnwys Asesu Ynni Domestig, Trwydded Peilot Dronau, Arolygu â Drôn at Ddiben Arolygu/Asesu Risg.

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth a sut i ymrestru.



'Trydarwch ni'

Rydym ni bellach ar gyfryngau cymdeithasol..

Ochr yn ochr â'n brandio a'n logo newydd, lansiom ni ein Twitter([@OptimisedR](#)) a LinkedIn ([Optimised Retrofit: Overview | LinkedIn](#)) Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio yn gynharach y mis yma.

Dilynwch ni am newyddion diweddaraf ein prosiect, erthyglau cysylltiedig ac astudiaethau achos sy'n mynd rhagddynt.



Hoffen ni Glywed Gennyh Chi!

Os hoffech chi ddysgu mwy am y Rhaglen Optimeiddio, gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf neu gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Ewch i: [Optimised Retrofit – Sero Group](#)

E-bost: optimisedretrofit@sero.life

Dilynwch ni ar Twitter: [@OptimisedR](#)

Dilynwch ni ar LinkedIn: [Optimised Retrofit](#)

sero